



Department
of Energy &
Climate Change

Galwad am dystiolaeth

Rhoi gwaredu daearegol ar waith:
Gweithio gyda chymunedau

1 Gorffennaf 2015

© Hawlfraint y Goron 2015

URN 15DW/357

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logoau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges ebost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn ond@decc.gsi.gov.uk.

Rhoi gwaredu daearegol ar waith: Galwad am dystiolaeth ynghylch gweithio gyda chymunedau

Proses yr Alwad am Dystiolaeth

Defnyddiwch y ffurflen hon i ateb cwestiynau ar yr Alwad am Dystiolaeth ynghylch Gweithio gyda Chymunedau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **4 Medi 2015**.

Gellir dychwelyd ymatebion drwy'r ebost (yn ddelfrydol) neu'r post.

Cyfeiriad ebost: OND@decc.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post i:

Office for Nuclear Development

Geological Disposal Team

Department of Energy and Climate Change

55 Whitehall

London

SW1A 2EY

I'n helpu i ddadansoddi'r ymatebion, byddwch cystal â rhoi manylion eich sefydliad.

Pan ddaw'r Alwad am Dystiolaeth i ben, gallwn gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynwyd, neu drefnu ei bod ar gael yn gyhoeddus. Hefyd, caiff aelodau'r cyhoedd ofyn am gopi o ymatebion o dan y ddeddfwriaeth ar ryddid gwybodaeth.

Os nad ydych chi am i'ch ymateb – gan gynnwys eich enw, eich manylion cysylltu ac unrhyw wybodaeth bersonol arall – fod ar gael yn gyhoeddus, dywedwch hynny'n glir mewn ysgrifen wrth ichi anfon eich ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth. Sylwch: os yw'ch cyfrifiadur yn cynnwys nacâd cyfrinachedd yn awtomatig, fydd hynny ddim yn cyfrif fel cais am gyfrinachedd.

Esboniwch pam mae angen ichi gadw manylion yn gyfrinachol. Cymerwn eich rhesymau i ystyriaeth os bydd rhywun yn gofyn am yr wybodaeth hon o dan y ddeddfwriaeth ar ryddid gwybodaeth. Er hynny, mae'n rhaid inni gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac allwn ni ddim addo y byddwn bob amser yn gallu cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

Diben yr Alwad am Dystiolaeth

Diben yr Alwad hon am Dystiolaeth yw dwyn ynghyd dystiolaeth a gwybodaeth am brosesau ar gyfer gweithio gyda chymunedau wrth leoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF). Yn benodol, mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn canolbwyntio ar faterion cynrychioli cymunedau, buddsoddi mewn cymunedau a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd. Caiff y dystiolaeth a gyflwynir ei defnyddio i helpu'r Gweithgor Cynrychioli Cymunedau (CRWG) i ddatblygu cynigion polisi ar sut y bydd pob un o'r meysydd hyn yn gweithio'n ymarferol yn ystod y broses leoli.

Nid ymgynghoriad cyhoeddus mo'r Alwad am Dystiolaeth, ac nid yw'n ceisio sylwadau ar ble y dylai GDF gael ei leoli neu ble na ddylai gael ei leoli.

Mae'r alwad am Dystiolaeth yn gofyn cwestiynau am y pedwar maes a ganlyn:

- Sut mae diffinio cymuned
- Sut mae sicrhau cynrychiolaeth, llywodraethiant a phenderfyniadau effeithiol
- Sut mae rheoli a dyrannu Buddsoddiadau Cymunedol
- Sut mae cyflawni prawf o gefnogaeth y cyhoedd

Am ba fath o dystiolaeth rydyn ni'n chwilio?

Rydym yn chwilio am dri math o dystiolaeth:

- Astudiaethau achos neu dystiolaeth hanesiol, hynny yw disgrifiadau o brosiectau, megis enghreifftiau o strwythurau cynrychioli cymunedol gwirioneddol sy'n cael eu cyflawni. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o arferion arloesol neu'r arferion gorau, yn ogystal â gwybodaeth am rwystrau a heriau
- Tystiolaeth feintiol (rifiadol).
- Tystiolaeth ansoddol (heb fod yn rhifiadol).

Gallai'r dystiolaeth ddod o amryw o ffynonellau gan gynnwys y byd academiaidd, y sector niwclear, diwydiannau eraill, profiad o brosiectau seilwaith mawr neu sectorau cymunedol. Does dim angen ei chyfyngu i'r diwydiant niwclear neu brosiectau gwastraff ymbelydrol. Dylid nodi y bydd angen i'r dulliau a'r strwythurau cynrychioli cymunedol a ddefnyddir yn y pen draw, allu gweithio yn yr ystod gyflawn o gefndiroedd a sefyllfaoedd cymunedol sy'n codi ledled y wlad.

Hoffem roi gwybodaeth gyson am y datblygiadau i randdeiliaid sydd â diddordeb mewn rhoi gwaredu daearegol ar waith. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag ond@decc.gsi.gov.uk.

Safbwyntiau'r gweinyddiaethau datganoledig

Mater datganoledig yw rheoli gwastraff ymbelydrol. Gan hynny, mae gan Lywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban gyfrifoldeb dros y mater hwn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, neu ar eu cyfer, yn y drefn honno. Mae eu priod safbwyntiau polisi wedi'u crynhoi isod:

Cafodd Papur Gwyn 2014 ar Roi Gwaredu Daearegol ar Waith ei gyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n cadarnhau'r polisi o waredu daearegol ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd, gan gynnwys ymagwedd wirfoddol at broses leoli GDF a honno wedi'i seilio ar barodrydd cymunedau lleol i gymryd rhan.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am sicrhau na fydd unrhyw GDF arfaethedig yn creu effaith andwyol ar amgylchedd, iechyd neu ddiogelwch Gogledd Iwerddon. Mae Gogledd Iwerddon yn dal o blaid rhoi gwaredu daearegol ar waith ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd y Deyrnas Unedig, gan gydnabod ei bod er lles Gogledd Iwerddon bod y gwastraff hwn yn cael ei waredu yn y modd mwyaf diogel a chadarn posibl.

Nid yw **Llywodraeth yr Alban** yn noddi'r rhaglen ar gyfer rhoi gwaredu daearegol ar waith, ond mae'n dal wedi ymrwmo i ymdrin yn gyfrifol â'r gwastraff ymbelydrol sy'n codi yn yr Alban. Ar 20 Ionawr 2011, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban bolisi'r Alban ar Wastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd. Polisi Llywodraeth yr Alban yw y dylai rheolaeth hirdymor gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd ddigwydd mewn cyfleusterau yn agos i'r wyneb. Dylai cyfleusterau gael eu lleoli mor agos ag y bo modd i'r safleoedd lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu. Er nad yw Llywodraeth yr Alban o blaid gwaredu

daearegol dwfn, mae hi, ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn dal i gefnogi rhaglen gadarn o storio dros dro a rhaglen barhaus o ymchwilio a datblygu.

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol er mwyn rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd mewn modd diogel a chadarn yn y tymor hir¹. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r unig ffordd i sicrhau GDF yng Nghymru yw ar sail partneriaeth wirfoddol â chymunedau lleol sydd â diddordeb ac sy'n fodlon ymuno â thrafodaethau am y posibilrwydd o roi cartref i GDF a dod â'r trafodaethau hynny i ben yn llwyddiannus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar ar Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu² er mwyn gofyn am sylwadau ar y prosesau posibl ar gyfer lleoli GDF yng Nghymru, ac i roi gwybodaeth i gymunedau a allai wirfoddoli i roi cartref i safle ac a allai ddymuno ymuno â thrafodaethau, heb ymrwymiad, ynghylch rhoi cartref i gyfleuster gwaredu daearegol.

¹ Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd, 2015 <http://bit.ly/1JyZO1>

² Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Gwaredu Daearegol ar Wastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu, Mai 2015 <http://bit.ly/1InINYO>

Rhagymadrodd

Beth yw'r mater dan sylw?

1. Mae'r Deyrnas Unedig wedi cronni gwastraff ymbelydrol o amryw o ffynonellau gan gynnwys cynhyrchu trydan mewn atomfeydd, defnyddio deunyddiau ymbelydrol mewn diwydiant, meddygaeth ac ymchwil, ac o raglenni niwclear sy'n gysylltiedig ag amddiffyn. Mae rhywfaint o'r deunydd hwn mewn storfeydd interim, ond mae'r rhan fwyaf yn dal yn rhan o'r cyfleusterau presennol a dim ond dros sawl degawd y daw'n wastraff a hynny wrth i'r safleoedd hyn gael eu datgomisiynu a'u glanhau. Hefyd, bydd gwastraff yn cael ei greu drwy ddefnyddio a datgomisiynu unrhyw atomfeydd newydd.
2. Ceir categorïau gwahanol o wastraff ymbelydrol, ac ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd y bydd gwaredu daearegol yn cynnig ateb hirdymor cadarn. Mae dulliau gwaredu eraill ar gael yn barod ar gyfer gwastraff ymbelydrol is ei actifedd. Mae gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn cynnwys nifer o gategorïau; gwastraff lefel uchel (HLW), gwastraff lefel ganolradd (ILW), a rhywfaint o wastraff lefel isel (LLW) nad yw'n addas i gael ei waredu yn agos i'r wyneb yn y cyfleusterau presennol. Pe bai holl wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd y Deyrnas Unedig o'n defnydd yn y gorffennol ac ar hyn o bryd yn cael ei roi at ei gilydd, byddai'n llenwi tua hanner Stadiwm Wembley.



Enghreifftiau o wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (ILW ac HLW)

3. Yn ychwanegol at y gwastraffoedd sydd wedi'u disgrifio uchod, mae yna ddeunyddiau ymbelydrol nad ydyn nhw'n cael eu dosbarthu'n wastraff ar hyn o bryd ond y byddai angen eu rheoli fel

gwastraff drwy eu gwaredu'n ddaearegol, pe penderfynid ar ryw adeg yn y dyfodol nad oedd defnydd iddyn nhw mwyach. Mae'r rhain yn cynnwys tanwydd sydd wedi darfod (gan gynnwys tanwydd wedi darfod o atomfeydd newydd), plwtoniwm ac wraniwm.

4. Ym mis Gorffennaf 2006, ar ôl tair blynedd o ymgysylltu'n fanwl ag arbenigwyr a'r cyhoedd yn ehangach, argymhellodd y pwyllgor annibynnol, y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM)³ mai gwaredu daearegol, ar y cyd â storfeydd diogel a chadarn, oedd yr opsiwn gorau a oedd ar gael at reoli gwaddol y Deyrnas Unedig o wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir.
5. Mae storfeydd interim yn gydran hanfodol ar gyfer rheoli gwastraff uwch ei actifedd, ond nid yw'n ateb ynddo'i hun o ran gwaredu. Mae'n darparu amgylchedd diogel a chadarn dros dro i becynnau gwastraff sy'n aros i gael eu gwaredu'n derfynol mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF). At ei gilydd, mae gan y storfeydd newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd oes ddylunio o gan mlynedd ac, os bydd angen storio ar yr wyneb am fwy na chan mlynedd, yna yn y pen draw bydd angen ailadeiladu'r storfeydd ac ailbecynnu'r pecynnau gwastraff ynddyn nhw.
6. Y gofyniad hwn bod rhaid i'r gwaith monitro, cynnal, amddiffyn yn gyson rhag newid yn yr amgylchedd, ailadeiladu ac ailbecynnu gael ei wneud gan bobl sydd, o gofio'r cyfnodau hir iawn pryd y mae angen i wastraff uwch ei actifedd gael ei gadw draw o bobl a'r amgylchedd, yn golygu nad yw storio interim yn ateb parhaol.
7. Yn rhyngwladol, ceir cytundeb yn gyffredinol mai gwaredu daearegol yw'r ateb rheoli hirdymor mwyaf diogel ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Mae'r gwledydd eraill sydd wedi penderfynu ar bolisi o waredu daearegol yn cynnwys Canada, y Ffindir, Ffrainc, y Swistir, Sweden ac Unol Daleithiau America.

Beth yw gwaredu daearegol?

8. Mae gwaredu daearegol yn golygu ynysu gwastraff ymbelydrol yn ddwfn y tu mewn i greigiau addas er mwyn sicrhau na fydd symiau niweidiol o ymbelydredd byth yn cyrraedd yr amgylchedd ar yr wyneb. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio nifer o rwystrau sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi amddiffyniad dros gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Nid gosod gwastraff o dan ddaear yn unig mohono.
9. Mae'r rhwystrau niferus sy'n cynnig diogelwch i waith gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff yn gyfuniad o'r canlynol:
 - ffurf y gwastraff ymbelydrol ei hun, er enghraifft mae gwastraff lefel uchel sy'n codi i ddechrau fel hylif yn cael ei droi'n wydr solet, sefydlog a gwydn cyn cael ei storio a'i waredu
 - pecynnu'r gwastraff
 - rhwystrau peirianegol (clustogfa) sy'n amddiffyn y pecynnau gwastraff ac yn cyfyngu ar symudiadau'r radioniwclidau os cân nhw eu rhyddhau o'r pecynnau gwastraff
 - nodweddion peirianegol y cyfleuster y mae'r pecynnau gwastraff yn cael eu storio ynddyn nhw
 - cefndir daearegol (craig) sefydlog y lleolir y cyfleuster ynddo

³ *Managing our Radioactive Waste Safely – CoRWM's Recommendations to Government*, Gorffennaf 2006
<http://bit.ly/15R4QpL>





Diagram o enghraifft o systemau aml-rwystr



Ffigur yn dangos dyfnder cyfleusterau tanddaear

Rhoi Gwaredu Daearegol ar Waith

10. Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Bapur Gwyn newydd – Implementing Geological Disposal.⁴ Mae'r Papur Gwyn yn manylu ar ymagwedd ddiwygiedig at roi gwaredu daearegol ar gyfer gwastraffoedd ymbelydrol uwch eu hactifedd ar waith, ar ôl ymgynghoriad yn 2013.
11. Er mwyn dod o hyd i safleoedd posibl lle y gallai GDF gael ei leoli, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o blaid ymagwedd wirfoddol, wedi'i seilio ar weithio gyda chymunedau sy'n fodlon cymryd rhan yn y broses leoli.
12. Mae'r Papur Gwyn yn rhoi gwybodaeth gefndir am y gwastraff ymbelydrol a fydd yn cael ei waredu mewn GDF a sut mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd; hanes sut y daeth gwaredu daearegol yn bolisi i lywodraeth y Deyrnas Unedig, a'r ffaith bod hyn yn cyd-fynd â'r dull sy'n cael ei ffafrio'n rhyngwladol; a gwybodaeth am beth yw gwaredu daearegol, gan gynnwys agweddau ar y gwaith dylunio, sut mae'n cael ei adeiladu a'i reoleiddio, a rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n ymwneud â'i roi ar waith.
13. Wedyn mae'r Papur Gwyn yn nodi fframwaith polisi ar gyfer rhoi gwaredu daearegol ar waith yn y dyfodol ac mae'n esbonio'r gwaith a fydd yn cael ei wneud cyn i drafodaethau ffurfiol rhwng cymunedau sydd â diddordeb a datblygwr GDF, Radioactive Waste Management Limited (RWM), ddechrau. Does dim safleoedd wedi'u dewis nac yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Bydd trafodaethau ffurfiol i ddechrau dod o hyd i safleoedd posibl yn dechrau ar ôl i allbynnau'r gwaith hwn gael eu cwblhau. Bydd hynny'n sicrhau y gall unrhyw gymuned sydd am gymryd rhan yn y broses y pryd hwnnw wneud hynny â mwy o wybodaeth ac eglurder ynglŷn â natur datblygiad GDF.
14. Mae'r gwaith cychwynol hwn yn cynnwys:
 - dod â datblygiad GDF yn Lloegr o fewn y diffiniad o 'Nationally Significant Infrastructure Project' yn Neddf Cynllunio 2008, gan gynnwys llunio Datganiad Polisi Cenedlaethol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd-fynd ag ef;
 - ymarfer sgrinio daearegol cenedlaethol, a fydd yn ystyried pa lefel o wybodaeth sydd eisoes ar gael am ddaearog ledled y wlad, sut y gallai hynny gael ei chysylltu'n ddefnyddiol â'r achos diogelwch o blaid GDF a sut y gallai hynny helpu RWM i ymwneud yn agored â chymunedau sydd â diddordeb;
 - gweithio gydag arbenigwyr a rhanddeiliaid drwy gynnull Gweithgor Cynrychioli Cymunedol (CRWG), o dan gadeiryddiaeth yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), i ddatblygu'r prosesau ar gyfer gweithio gyda chymunedau, gan gynnwys cynrychioli'r gymuned, y prawf o gefnogaeth gyhoeddus, a manylion buddsoddiadau cymunedol.
15. Gwaith y CRWG sydd o dan sylw yn yr Alwad hon am Dystiolaeth.
16. Mae'r diagram canlynol wedi'i godi o'r Papur Gwyn ac mae'n ddarlun o'r amserlenni tebygol gan gynnwys ymglymiad arfaethedig y gymuned yn ystod y broses leoli.

⁴ Implementing Geological Disposal. A Framework for the long-term management of higher activity radioactive waste, Gorffennaf 2014 <http://bit.ly/1NtEcUi>



Diagram yn dangos y broses at y dyfodol

Y Gweithgor Cynrychioli Cymunedol

- Nid yw'r Papur Gwyn yn rhagnodi'r broses fanwl o ran sut y bydd cynrychiolaeth i'r gymuned yn gweithio. Yn hytrach, mae'n nodi sut y caiff y broses ei datblygu dros y ddwy flynedd nesaf fel ei bod yn barod pan fydd y trafod ffurfiol yn dechrau rhwng y cymunedau sydd â diddordeb a'r datblygwr, RWM.
- Un o'r camau allweddol yn y Papur Gwyn, sydd wedi'i gymryd erbyn hyn, oedd i DECC gynnull y CRWG⁵. Mae'r gweithgor hwn wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r materion ynglŷn â chynrychioli cymunedol, buddsoddi cymunedol ac ymgysylltu cymunedol ar safleoedd posibl ar gyfer GDF. Rôl y CRWG yw helpu i ddatblygu ffyrdd o weithio gyda chymunedau, mewn modd agored a thryloyw.
- Mae'r gweithgor yn cael ei gadeirio gan DECC ac mae'r aelodaeth graidd yn dod o adrannau perthnasol eraill o'r llywodraeth, y datblygwr GDFs, sef RWM, a chynrychiolwyr gwirfoddol sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn materion llywodraeth leol, cyflawni prosiectau seilwaith mawr, lleoli GDFs, ac academia.
- Mae'r CRWG yn cynnwys pobl sydd â sgiliau ac arbenigedd sy'n berthnasol i helpu llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu prosesau ar gyfer gweithio gyda chymunedau; does dim bwriad iddo

⁵ <http://bit.ly/1CEoNL2>

gynrychioli carfannau neu fuddiannau penodol, ond yn hytrach defnyddio barn y rhanddeiliaid sydd â diddordeb drwy ymgysylltu eang.

Gweithgareddau'r CRWG

21. Dyma gyfieithiad answyddogol o'r hyn a ddywedodd y Papur Gwyn:

7.13 Mae gweithgareddau'r gweithgor cynrychioli cymunedol yn debyg o gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Datblygu dulliau ar gyfer diffinio 'cymunedau' mewn ardaloedd sydd â diddordeb i wybod mwy am GDF, ac opsiynau ynglŷn â chynrychiolaeth gymunedol effeithiol;
- Diffinio rolau a chyfrifoldebau cynrychiolwyr cymunedol a dealltwriaeth o sut y gallai'r rolau hynny newid ochr yn ochr â'r broses o leoli;
- Datblygu opsiynau ynglŷn â sicrhau bod pob lefel o lywodraeth leol yn cael llais yn y broses o leoli;
- Cynnig gwell eglurder ynglŷn â pha bryd y gellid barnu bod prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn briodol, a'r dull ar gyfer cynnal prawf o'r fath;
- Datblygu opsiynau ar gyfer dyrannu buddsoddiadau cymunedol, gan gynnwys rheoli unrhyw becyn o buddsoddi, asesu unrhyw geisiadau am gyllid a gallu cymunedau i ddylanwadu ar fuddsoddiadau yn eu hardaloedd daeryddol.

Y Materion Allweddol

Cynrychiolaeth Gymunedol

22. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod yr amrywiaeth o gymunedau a strwythurau awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig. Mae llawer o ffyrdd gwahanol i bobl uniaethu ag ardaloedd, neu eu diffinio eu hunain yn unol â manau yn yr ardaloedd hynny. Nododd Papur Gwyn 2014 ynghylch Rhoi Gwaredu Daearegol ar Waith amcan gweithio gyda chymunedau – sef sicrhau bod y datblygwyr yn cael ei ddwyn i gyfrif, a'i fod yn gyfrifol am roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r cymunedau a gwranddo ar eu sylwadau ac ymateb iddyn nhw mewn modd agored ac ymatebol, gyda'r cymunedau'n cadw'r gallu i dynnu'n ôl o'r broses. Tanlinellwyd mor bwysig oedd proses agored a thryloyw o weithio gyda chymunedau drwy gydol y broses leoli wirfoddol a nodwyd rhai egwyddorion lefel-uchel, gan gynnwys y bydd angen i gyrff cynrychioli lleol – gan gynnwys pob lefel o lywodraeth leol – gael llais yn y broses.

23. Wnaeth y Papur Gwyn ddim ceisio rhagnodi proses fanwl o sut y dylai cynrychiolaeth gymunedol weithio. Eglurodd yr ymatebion i Adolygiad Proses Lleoli GDFs 2013 y byddai angen rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion anodd a chymhleth ynglŷn â chynrychiolaeth gymunedol yn y cyd-destun hwn – sef gwaith a ddylai gael ei wneud mewn modd agored a thryloyw, gan ddefnyddio cyngor ac arbenigedd y rhai sydd â phrofiad perthnasol. Mae'r materion hyn yn cynnwys datblygu ymagweddau at ddiffinio 'cymunedau' mewn ardaloedd sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am GDF; diffinio rolau a chyfrifoldebau cynrychiolwyr cymunedol a dealltwriaeth o sut mae'r rolau hyn yn esblygu ochr yn ochr â'r broses o leoli GDF; ac opsiynau ar gyfer cynrychiolaeth gymunedol effeithiol. Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn gam yn y broses

hon. Yn benodol, rydym yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth am sut i sicrhau cynrychiolaeth, llywodraethiant a phenderfyniadau effeithiol.

Buddsoddi mewn Cymuned

24. Bydd y GDF yn brosiect sawl biliwn a fydd yn rhoi cyflogaeth am ddegawdau lawer. Gan hynny, mae cynnig cartref i GDF yn debyg o ddod â buddion economaidd arwyddocaol i gymuned o ran cyflogaeth a seilwaith, a hynny dros gyfnod hir.
25. Bydd un elfen o fuddsoddi yn llifo'n uniongyrchol o adeiladu'r cyfleuster ar ffurf swyddi ac effeithiau ar gadwyni cyflenwi. Bydd rhagor o fuddsoddiadau'n cael eu negodi hefyd drwy'r broses gynllunio a bydd hyn yn dod o dan gytundebau cynllunio y bwriedir iddyn nhw leddfu effaith gwaith adeiladu a/neu weithredu'r GDF.
26. Y datblygwr, RWM, fydd yn talu unrhyw gostau yn sgil ymgysylltu ehangach â'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb drwy gydol y cyfnod o drafodaethau ffurfiol rhwng cynrychiolwyr cymunedol a'r datblygwr.
27. Hefyd, ac yn unol â phrosiectau seilwaith mawr eraill, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn trefnu bod buddsoddiadau ychwanegol ar gael i'r gymuned a fydd yn rhoi cartref i GDF. Bydd hyn yn arwyddocaol – yn debyg i brosiectau GDF eraill yn rhyngwladol, ac yn gallu creu buddion o'r naill genhedlaeth i'r llall ar gyfer y gymuned arbennig a fydd yn rhoi cartref i GDF. Bwriad y buddsoddiad hwn yw sicrhau bod y gymuned leol yn manteisio i'r eithaf ar fuddion posibl y cyfleuster. Caiff ei deilwra ar gyfer amgylchiadau'r ardal leol ond fe allai gynnwys materion fel datblygu sgiliau, gwell seilwaith trafnidiaeth neu seilwaith cymdeithasol arall.
28. Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn yn 2014, ar ôl ymuno â thrafodaethau ffurfiol gyda'r datblygwr, bydd y gymuned yn dechrau derbyn hyd at £1m y flwyddyn. Os bydd y gymuned yn dal i gymryd rhan a bod y broses yn mynd ymlaen i ddod o hyd i safleoedd posibl drwy agor tyllau archwilio, byddai'r swm hwn yn codi i uchafswm o £2.5m y flwyddyn. Dim ond tra byddai'r gymuned yn cymryd rhan yn y broses y byddai'r arian hwn yn parhau.
29. Rhaid i'r buddsoddiad cynnar hwn beidio â llenwi bylchau yn y cyllidebau lleol, rhaid iddo gael ei wario yn unol â'r arferion gorau o ran sicrhau gwerth am arian, rhaid iddo sicrhau manteision mesuradwy yn yr amgylchedd, y gymdeithas a/neu'r economi lleol a rhaid iddo fod yn amlwg yn ychwanegol at gyllid ymgysylltu neu gyllid a drefnir fel rhan o waith i liniaru gwaith ymchwilio.
30. Os bydd y datblygwr (RWM) yn nodi safle fel un a allai fod yn ymarferol a bod y gymuned yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cyfnod datblygu, ar ôl prawf cadarnhaol o gefnogaeth y cyhoedd gan y gymuned, byddai'r buddsoddiad yn cynyddu'n sylweddol, yn unol â'r esboniad ym mharagraff 27.
31. Byddai'r buddsoddiadau sydd eisoes wedi'u talu yn cael eu cadw gan y gymuned hyd yn oed pe nai bai GDF yn mynd yn ei flaen yn yr ardal o dan sylw.
32. Wnaeth y Papur Gwyn ddim pennu'r strwythurau a'r dulliau ar gyfer dyrannu'r buddsoddiad cymunedol cynnar hwn, sut y dylai gael ei gyfeirio at y gymuned, pwy ddylai ddal buddsoddiadau a fyddai'n cael eu darparu gan lywodraeth y Deyrnas Unedig, na pha fathau o brosiectau y gallai eu cefnogi. Dyma'r materion sy'n cael eu hystyried gan y CRWG ac rydyn ni felly yn gofyn am wybodaeth am y pwnc hwn yn yr Alwad hon am Dystiolaeth.

Prawf o gefnogaeth y cyhoedd

33. Cymunedau sydd wrth wraidd yr ymagwedd wirfoddol at leoli cyfleusterau. Mae Papur Gwyn 2014 yn addo y bydd gan y cymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau gyda'r datblygwr ar unrhyw adeg yn y broses leoli hyd at y prawf terfynol o gefnogaeth y cyhoedd. Os bydd cymuned, drwy'r dulliau cynrychioli cymunedol a drafodwyd uchod, yn penderfynu tynnu'n ôl o drafodaethau gyda'r datblygwyr cyn y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, daw'r broses leoli yn y gymuned honno i ben.
34. Fydd y penderfyniad terfynol i leoli GDF mewn cymuned sydd wedi mynegi diddordeb mewn rhoi cartref i GDF ddim yn cael ei gymryd nes bod prawf terfynol o farn y cyhoedd wedi'i gynnal a hwnnw'n dangos cefnogaeth gymunedol i ddatblygu safle penodol. Bydd y prawf hwn o gefnogaeth y cyhoedd yn benderfyniad cymunedol uniongyrchol, i'w gymryd gan bobl y gymuned leol. Os bydd ymateb y gymuned i'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn gadarnhaol, caiff y datblygiad fynd yn ei flaen, a bydd y datblygwr yn gwneud cais am ganiatâd datblygu i adeiladu GDF, ac am y caniatadau eraill i fwrw ymlaen oddi wrth y rheoleiddiwr amgylcheddol a'r rheoleiddiwr diogelwch a chadernid niwclear. Os bydd ymateb y gymuned yn negyddol, fydd datblygiad GDF ddim yn mynd ymlaen, a byddai'r broses leoli ar gyfer y safle o dan sylw yn dod i ben.
35. Mae'r broses ar gyfer dod o hyd i safle posibl ar gyfer GDF, ac ar gyfer dangos cefnogaeth y gymuned i roi cartref i GDF, yn wahanol i'r broses o sicrhau caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (fel prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol). Fydd y penderfyniad terfynol i wneud cais am ganiatâd datblygu mewn cymuned ddim yn cael ei gymryd hyd nes ac oni bai bod yna brawf cadarnhaol o gefnogaeth y cyhoedd i GDF ar y safle o dan sylw.
36. Pan fydd digon o wybodaeth ar gael i fwydo prawf terfynol o gefnogaeth y cyhoedd i leoli GDF mewn lleoliad penodol, caiff y prawf ei gynnal. Mae'r union ddulliau ac amserau yn faterion y bydd y CRWG yn eu hystyried ac yn cynnig cyngor yn eu cylch i DECC er mwyn bwydo penderfyniad polisi terfynol, er bod llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhagweld y byddai'n cael ei gynnal ychydig cyn i gais am ganiatâd datblygu ar gyfer GDF ar safle penodol gael ei wneud (gan mai dyna pryd y byddai'r wybodaeth helaethaf ar gael i'r gymuned cyn y gwaith adeiladu).
37. Yn erbyn y cefndir hwn, rydym yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ar sut y gallai'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd weithio mewn cymuned.

Ffurflen ymateb

Defnyddiwch y ffurflen hon i ymateb i'r Alwad hon am Dystiolaeth ynghylch Gweithio gyda Chymunedau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **4 Medi 2015**.

Gellir dychwelyd ymatebion drwy'r ebost (yn ddelfrydol) neu'r post.

Cyfeiriad ebost: OND@decc.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post i:

Office for Nuclear Development
Geological Disposal Team
Department of Energy and Climate Change
55 Whitehall
London
SW1A 2EY

Cwestiwn Galwad am Dystiolaeth: Eich manylion chi

Enw	
Sefydliad / Cwmni	
Maint y Sefydliad (nifer y gweithwyr)	
Math o Sefydliad	
Ydych chi'n ymateb fel unigolyn ynteu ar ran eich sefydliad?	
Teitl Swydd	
Adran	
Cyfeiriad	
Ebost	
Ffôn	

Hoffech chi i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol? Os hoffech, rhowch reswm

Hoffwn/Na hoffwn

Cwestiynau'r Alwad am Dystiolaeth

Cwestiwn 1 yr Alwad am Dystiolaeth: Sut mae diffinio cymuned?

1.1 Bydd lleoli GDF yn cynnwys proses o weithio gyda chymunedau bodlon – ond does dim diffiniad eto o beth yw 'cymuned' yn y cyd-destun hwn.

Oes gennych chi dystiolaeth, enghreifftiau, profiad o'r ffordd orau o ddiffinio 'y gymuned', yng nghyd-destun cymuned sy'n ystyried a yw'n dymuno cynnig cartref i gyfleuster gwaredu daearegol ai peidio?

Gallai'r dystiolaeth ddod o'r Deyrnas Unedig neu wledydd tramor, ac o enghreifftiau eraill o seilwaith sy'n arwyddocaol yn genedlaethol. Er hynny, dylai'r ymatebwyr gofio y bydd angen i'r diffiniad a geir yn y pen draw fod yn ddigon hyblyg i fod yn gymwys i ardaloedd gwahanol ledled y wlad a allai fod yn awyddus i ymuno â'r broses leoli.

1.2 Rhowch enghreifftiau o ble mae'r dull hwn wedi'i ddefnyddio a sut y cyfrannodd at gynrychiolaeth gymunedol effeithiol wrth i brosiect seilwaith mawr gael ei gyflawni. Nodwch hefyd unrhyw rwystrau a heriau a ddylai gael eu cymryd i ystyriaeth.

[DS: Er y bydd union gynllun a dyluniad GDF yn dibynnu ar y fan lle caiff ei leoli, fe fyddai yno gyfleusterau ar yr wyneb (tuag 1 cilometr sgwâr) a chyfleusterau o dan ddaear, wedi'u cysylltu gan siaffftiau a / neu dwneli mynediad. Does dim rhaid i'r cyfleusterau tanddaear gael eu lleoli yn union o dan y cyfleusterau ar yr wyneb: fe allen nhw fod sawl cilometr i ffwrdd.]

1.3 Ydy'r dull hwn wedi'i gofnodi mewn ysgrifen ac ar gael inni? Gallai hyn fod ar ffurf adroddiadau ffurfiol, papurau ymchwil, ac erthyglau mewn cyfnodolion neu'r wasg.

Teitl:

Awdur:

Cyhoeddiad:

Dyddiad:

Os nad yw, allech chi roi crynodeb byr?

Cwestiwn 2 yr Alwad am Dystiolaeth:

Sut mae darparu cynrychiolaeth, llywodraethiant a phenderfyniadau effeithiol

2.1 Oes gennych chi dystiolaeth, enghreifftiau neu brofiad o ffyrdd effeithiol i safbwyntiau 'cymuned' leol gael eu cynrychioli mewn trafodaethau ffurfiol wrth i brosiectau seilwaith mawr gael eu cyflawni?

Dylai'r ymatebwyr gadw mewn cof y gallai proses lleoli GDF bara dros ddegawdau lawer, ac y bydd cynrychioli cymuned yn golygu cyflwyno ystod amrywiol o safbwyntiau lleol dros gyfnod amser a fydd yn ymestyn dros lawer cylch etholiadol ar lefel leol a chenedlaethol. Nodwch unrhyw enghreifftiau arloesol neu enghreifftiau o'r arferion gorau, yn ogystal ag unrhyw rwystrau neu heriau.

2.2 Oes gennych chi dystiolaeth, enghreifftiau neu brofiad o gyrff neu strwythurau cynrychioli cymunedol sydd wedi gweithio'n dda wrth i brosiectau mawr gael eu lleoli?

Pa rolau a chyfrifoldebau oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r corff/cyrff gynrychioli'r gymuned yn iawn?

Nodwch unrhyw enghreifftiau arloesol neu enghreifftiau o'r arferion gorau, yn ogystal ag unrhyw rwystrau neu heriau.

2.3 Bydd angen i gorff (neu gyrff) cynrychioli cymunedol sicrhau bod y datblygwr yn cael ei ddwyn i gyfrif wrth roi gwybodaeth i'r gymuned a fydd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol. Bydd yn gyfrifol hefyd am benderfynu a ddylid tynnu'n ôl o'r trafodaethau hynny a pha bryd.

Oes gennych chi dystiolaeth, enghreifftiau neu brofiad o ddulliau llywodraethu a phenderfynu o ran ymglymiad cymunedau mewn prosiectau seilwaith ar raddfa fawr a fyddai'n gymwys i gorff cynrychioli cymunedol ar gyfer lleoli GDF?

2.4 Allech chi roi enghreifftiau o ble y cafodd y dull a nodwyd uchod ei ddefnyddio a sut y cyfrannodd at gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus? Nodwch unrhyw enghreifftiau arloesol neu enghreifftiau o'r arferion gorau, yn ogystal ag unrhyw rwystrau neu heriau.

2.5 Ydy'r dull hwn wedi'i gofnodi mewn ysgrifen ac ar gael inni? Gallai hyn fod ar ffurf adroddiadau ffurfiol, papurau ymchwil, ac erthyglau mewn cyfnodolion neu'r wasg.

Teitl:

Awdur:

Cyhoeddiad:

Dyddiad:

Os nad yw, allech chi roi crynodeb byr?

Cwestiwn 3 yr Alwad am Dystiolaeth: Sut mae rheoli a dyrannu Buddsoddiadau Cymunedol

3.1 Bydd buddsoddiadau sylweddol ar gael i gymunedau a fydd yn ymwneud â'r broses leoli ar gyfer

GDF (hyd at £1m y gymuned i ddechrau, gan godi i £2.5m yn nes ymlaen yn y broses).

Oes gennych chi dystiolaeth, enghreifftiau neu brofiad o ddulliau ar gyfer dyrannu buddsoddiad cymunedol ar y raddfa hon – gan gynnwys y corff sy'n rheoli'r cyllid, sut y gall y capasiti gael ei greu i ddyrannu'r buddsoddiad yn y modd mwyaf cynhyrchiol, a gallu cymunedau i ddylanwadu ar y buddsoddiad yn eu hardal ddaearyddol?

3.2 Rhowch enghreifftiau o ble y cafodd y dull a nodwyd uchod ei ddefnyddio a sut y cyfrannodd at gyflawni prosiect buddsoddi cymunedol yn llwyddiannus. Nodwch unrhyw enghreifftiau arloesol neu enghreifftiau o'r arferion gorau, yn ogystal ag unrhyw rwystrau neu heriau

3.3 Ydy'r dull hwn wedi'i gofnodi mewn ysgrifen ac ar gael inni? Gallai hyn fod ar ffurf adroddiadau ffurfiol, papurau ymchwil, ac erthyglau mewn cyfnodolion neu'r wasg.

Teitl:

Awdur:

Cyhoeddiad:

Dyddiad:

Os nad yw, allech chi roi crynodeb byr?

Cwestiwn 4 yr Alwad am Dystiolaeth: Sut mae cyflawni prawf o gefnogaeth y cyhoedd

4.1 Y polisi sydd wedi'i nodi ym Mhapur Gwyn 2014 yw na chaiff GDF ei adeiladu os nad oes prawf cadarnhaol wedi'i gynnal o gefnogaeth leol i gynnig cartref i GDF ar y safle o dan sylw. Bydd y prawf hwn o gefnogaeth y cyhoedd yn benderfyniad cymunedol uniongyrchol, a gymerir gan bobl y gymuned leol.

Oes gennych chi dystiolaeth, enghreifftiau neu brofiad o'r ffordd fwyaf effeithiol i ofyn am safbwyntiau cymuned? Gallai'r ymatebion gynnwys y dull ar gyfer cynnal prawf terfynol o gefnogaeth y cyhoedd, a ffyrdd i adnabod y rhai y dylid gofyn eu barn mewn prawf o'r fath (e.e. tiriogaeth, buddiannau neu raddfa'r boblogaeth).

4.2 Allech chi roi enghreifftiau o ble y cafodd y dull hwn ei ddefnyddio? Nodwch unrhyw enghreifftiau arloesol neu enghreifftiau o'r arferion gorau, yn ogystal ag unrhyw rwystrau neu heriau.

4.3 Ydy'r dull hwn wedi'i gofnodi mewn ysgrifen ac ar gael inni? Gallai hyn fod ar ffurf adroddiadau

ffurfiol, papurau ymchwil, ac erthyglau mewn cyfnodolion neu'r wasg.

Teitl:

Awdur:

Cyhoeddiad:

Dyddiad:

Os nad yw, allech chi roi crynodeb byr?

Cwestiwn 5 yr Alwad am Dystiolaeth: Oes yna wybodaeth neu ymchwil gefndir arall a fyddai yn eich barn chi'n ddefnyddiol i'r CRWG?

Cwestiwn 6 yr Alwad am Dystiolaeth: Rhagor o Wybodaeth

Hoffem ofyn rhagor o gwestiynau yn achos rhai ymatebwyr. Ydych chi'n fodlon inni gysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth os bydd ei hangen?

Pan ddaw'r Alwad am Dystiolaeth i ben, gallwn gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynwyd, neu drefnu ei bod ar gael yn gyhoeddus. Hefyd, caiff aelodau'r cyhoedd ofyn am gopi o ymatebion o dan y ddeddfwriaeth ar ryddid gwybodaeth.

Os nad ydych chi am i'ch ymateb - gan gynnwys eich enw, eich manylion cysylltu ac unrhyw wybodaeth bersonol arall - fod ar gael yn gyhoeddus, dywedwch hynny'n glir mewn ysgrifen wrth ichi anfon eich ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth. Sylwch: os yw'ch cyfrifiadur yn cynnwys nacâd cyfrinachedd yn awtomatig, fydd hynny ddim yn cyfrif fel cais am gyfrinachedd.

Esboniwch pam mae angen ichi gadw manylion yn gyfrinachol. Cymerwn eich rhesymau i ystyriaeth os bydd rhywun yn gofyn am yr wybodaeth hon o dan y ddeddfwriaeth ar ryddid gwybodaeth. Er hynny, mae'n rhaid inni gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac allan ni ddim addo y byddwn bob amser yn gallu cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

© Hawlfraint y Goron 2015

Department of Energy & Climate Change

3 Whitehall Place

London SW1A 2AW

www.gov.uk/decc

URN 15DW/357